**CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW**
***LLANGERNYW COMMUNITY COUNCIL***

Cynhaliwyd Cyfarfod o'r Cyngor Cymuned i drafod Ceisiadau Cynllunio Nos Fercher, Mehefin 10fed 2015 am 7.30 yh yng Nghanolfan Pandy Tudur

Ymddiheuriadau: Ifor Edwards, Emlyn Williams

Presennol: Gwynfor Davies (Cadeirydd), Diane M Roberts, Tecwyn Evans, Ann O Vaughan, Elen H Edwards, Gerwyn Davies (yn hwyrach), Ian W Griffith, Gwyn Williams (yn hwyrach) a'r Clerc.

40.1 DATGAN CYSYLLTIAD – rhoddwyd cyfle i'r aelodau ddatgan cysylltiad ag eitem ar yr Agenda. Pan gyrhaeddodd Gerwyn Davies ymhen pum munud a Gwyn Williams ymhen chwarter awr nid oedd ganddynt gysylltiad ag eitem ar yr Agenda.

40.2 FFYRDD – derbyniwyd llythyr gan Eilir Owen, Adran Traffig yn awgrymu ein bod yn cysylltu a GoSafe er mwyn gweld beth yw eu cynllun diweddaraf 'Gwylio Cyflymder Cymunedol'. Hefyd i roi rhifau cyswllt yr eglwys a'r Stag iddo ynglŷn a gosod arwyddion parcio yno. I adael i Sioned a John Harris wybod beth oedd ymateb yr Adran Traffig.

40.3 TYBIAU BLODAU – diolchwyd i Diane Roberts am ddyfrio'r tybiau. Mae gwirfoddolwyr eraill erbyn hyn yn dyfrio'r tybiau eraill.
Cyrhaeddodd Gerwyn Davies a Gwyn Williams y cyfarfod.

40.4 CEISIADAU CYNLLUNIO
40.4.1 Cais Rhif 0/41735 Ailadeiladu argae, (rhannol ôl-weithredol), ar draws llednant fach o Afon Rhandir o fewn tir Hafodunos. Amgau pwll a gwelliannau i'r ffordd ar draws yr argae yn Hafodunos, Llangernyw gan Dr Richard Wood – PENDERFYNWYD yn unfrydol gefnogi'r cais. Holwyd beth oedd ystyr 'rhannol ôl-weithredol'.
40.4.2 Cais Rhif 0/41739 Estyniad arfaethedig i gartref nyrsio yn Cartref yr Hen Ficerdy, Pandy Tudur gan Mr R Boyrangee – PENDERFYNWYD yn unfrydol gefnogi'r cais.
40.4.3 Cais Rhif 0/41745 Adeiladu adeilad amaethyddol (rhannol ôl-weithredol) yn Llethr, Gwytherin gan Mr Euros Williams – PENDERFYNWYD yn unfrydol gefnogi'r cais.
40.4.4 Cais Rhif 0/41755 Estyniad ochr arfaethedig yn Dolau, Llangernyw gan Mr Alun Williams. PENDERFYNWYD yn unfrydol gefnogi'r cais
e) Yngynghoriad Cynllunio Fferm Dinerth Hall – darllenwyd a phasiwyd i'w anfon i'r aelodau ar y wê

40.5 GWASANAETH BWS 42 – cafwyd ymateb i'n sylwadau yn nodi bod rhaid gwneud toriadau a bod y gwasanaeth newydd yn rhoi dwy awr a hanner o amser yn Llanrwst a phedair awr yn Abergele. Mae ARRIVA yn cynnig tocyn i'w teithwyr hwy a Llew Jones yn cynnig tocyn rhad i ieuenctid dan 21 oed. Pwysleisiwyd yn y cyfarfod ei bod yn bwysig bod pobl yn mynegi barn a dweud os nad yw'r amserlen newydd yn gyfleus. Hefyd angen holi Haf Jones, Conwy a oes gwybodaeth am Dial a Ride ac iddynt sichrau bod yr hysbysfyrddau bws yn gyfredol a bod amserlenni ar gael yn y siop a.y.b.

40.6 CRONFA BRO CERNYW – cafwyd trafodaeth ar y gofynion a'r ffurflen gais. Bydd angen gofyn am fantolen gyda'r cais bob tro. Cynigiodd Ian Griffith, eiliodd Tecwyn Evans a

CHYTUNODD pawb bod Elen Edwards yn llunio rhestr o bwyntiau i'w hystyried wrth drafod y ceisiadau ariannol a'i drafod mewn cyfarfod o'r Cyngor yn fuan.
Gadawodd Elen H Edwards y cyfarfod.

40.7 RHEOLEIDDIWR PENSIYNAU – PENDERFYNWYD yn unfrydol i ofyn i Iona Edwards gael golwg ar hwn.

40.8 MYNEDIAD I WYBODAETH AM GYNGHORAU CYMUNED A THREF – y Clerc i anfon hwn i'r aelodau.

40.9 HOLIADUR FFORWM CYNGHORAU CYMUNED A THREF CONWY – aethpwyd drwy'r holiadur gan ateb y cwestiynau. Cyfieiriwyd at: Lleoliad – bod y cyfarfod yn dod i Lanrwst weithiau; annog mwy o gynghorau gwledig i fynychu; bod y fforwm yn gyfle da i fynegi barn, cyfarfod staff, swyddogion a chynghorwyr.

40.10 MATERION LLEOL
40.10.1 Arhosfan bws – angen gofyn i Elen Edwards os cafodd baent yn rhad. Hefyd i ofyn i Aelwyd Bro Cernyw oedd ganddynt awydd peintio'r ddwy arhosfan (iddynt ddewis eu lliw) a'r Cyngor i ddarparu'r offer a.y.b.
40.10.2 Angen holi a yw'r lampau newydd yn Llangernyw yn mynd i roi cystal golau.
40.10.3 Heb gael cyfarfod rhanbarth Un Llais ers blwyddyn.
40.10.4 Dŵr yn llifo nes at Llanfair TH na Nant Mawr A548.
40.10.5 Angen torri tyfiant o gwmpas arwyddion ffyrdd 30mya ac arwyddion 'chevron' ar bont Dolhyfryd.
40.10.6 Angen arwydd cyffordd cyn Hendre Ddu ar yr A548 o Lanrwst –neu godi lefel y ffordd ar y gyffordd er mwyn hwyluso cychwyn allan i'r A548.
40.10.7 Heb weld heddwas yn y cyfarfod ers tro.
40.10.8 Draen ar gyffordd Pen Cefn, Gwytherin wedi tagu.
40.10.9 Holi Cyngor Conwy os medrant lenwi'r tri twb blodau bach o flaen stad Glan Collen.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.10 yh.

*Cymeradwywyd y Cofnodion ......D G Davies............................... Dyddiad ......24/6/15..................*

*Community Council Meeting was held to discuss Planning Applications Wednesday, 10 June 2015 at 7.30 pm at Pandy Tudur Community Centre*
*Apologies: Ifor Edwards, Emlyn Williams*
*Present: Gwynfor Davies (Chair), Diane M Roberts, Tecwyn Evans, Ann O Vaughan, Elen H. Edwards, Gerwyn Davies (later), Ian W Griffith, Gwyn Williams (later) and the Clerk.*
*40.1 DECLARATION - gave members the opportunity to declare a connection with an item on the agenda. Gerwyn Davies, when he arrived in five minutes and Gwyn Williams in fifteen minutes later did not have contact with an item on the agenda.*
*40.2 ROADS - received a letter from Eilir Owen, Traffic Department suggesting that we contact GoSafe to see what their latest scheme 'Community Speed Watch' involves. Also to provide contact numbers for him for the church and the Stag re installing parking signs there. To let Sioned and John Harris know what was the response of the Department of Traffic.*
*40.3 FLOWER TUBS - Diane Roberts was thanked for watering tubs. Other volunteers are now watering all the tubs.*
*Gerwyn Davies and Gwyn Williams arrived at the meeting.*
*40.4 PLANNING APPLICATIONS*

*40.4.1 Application No. 0/41735 Rebuilding dam (part retrospective), a small tributary of the river across Allotment land within Hafodunos. Enclosed pool and improvements to the road across the dam Hafodunos, Llangernyw by Dr Richard Wood - RESOLVED unanimously support the application. Asked what was meant by 'partial retrospective'.*
*40.4.2 Application No. 0/41739 Proposed extension to a nursing home at the Old Vicarage Home, Pandy Tudur by Mr R Boyrangee - RESOLVED unanimously support the application.*
*40.4.3 Application No. 0/41745 Erection of agricultural building (part retrospective) in Llethr, Gwytherin by Mr Euros Williams - RESOLVED unanimously support the application.*
*40.4.4 Application No. 0/41755 Proposed side extension Dolau, Llangernyw Mr Alun Williams. RESOLVED unanimously support the application.*
*e) Planning Consultation Dinerth Hall Farm - read and passed to be sent to members on the Internet.*

*40.5 BUS SERVICE 42 - responded to our observations indicating that cuts have to be made and that the new service will provide two and a half hours of time in Llanrwst and four hours in Abergele. ARRIVA offers 'day tickets' to their passangers and Llew Jones offers cheap tickets to youth under 21. Emphasized at the meeting that it was important that people express their opinions and say if the new schedule is not convenient. We also need to ask Haf Jones, Conwy if there is any information on 'dial a ride' and to ensure that the current billboards and bus timetables are up to date and available at the shop, etc.*
*40.6 BRO CERNYW FUND - there was a discussion on the requirements and the application form. A balance sheet is needed with the application each time. Ian Griffith proposed, seconded Tecwyn Evans and all agreed that Elen Edwards draws up a list of points to consider when discussing the financial applications and discussed at a meeting of the Council in the future.*
*Elen H Edwards left the meeting.*
*40.7 Pensions Regulator - RESOLVED unanimously to ask Iona Edwards have a look at this.*
*40.8 ACCESS TO INFORMATION ON COMMUNITY AND TOWN COUNCILS - the Clerk to send this to members.*
*40.9 CONWY COMMUNITY AND TOWN COUNCILS FORUM QUESTIONNAIRE – members were taken through a questionnaire and answered the questions. Referred to: Location - that the meeting comes to Llanrwst occasionally; encourage more rural councils to attend; that the forum is a good opportunity to express their opinion, meet the staff, officers and councillors.*
*40.10 LOCAL ISSUES*
*40.10.1 Bus stop - Elen Edwards needs to ask if there was cheap paint available. To ask Aelwyd Bro Cernyw if they had a desire to paint the two bus-stops (they choose their colour) and the Council to provide the equipment, etc.*
*40.10.2 Need to ask whether the new lamps are going to give as good quality of light.*
*40.10.3 No regional meeting of One Voice for one year.*
*40.10.4 Water flowing closer to Llanfair TH than Nant Mawr A548.*
*40.10.5 Need cut vegetation around 30mph road signs and around 'chevron' signs on Dolhyfryd bridge.*
*40.10.6 Need notice sign near junction before Hendre Ddu on the A548 from Llanrwst -or raising the level of the road at the junction to help setting off into the A548.*
*40.10.7 Have not seen policemen at the meeting for some time.*
*40.10.8 Drain at junction Pen Cefn, Gwytherin blocked.*
*40.10.9 Ask if Conwy Council can fill the three small flower tubs in front of Glan Collen estate.*

*The meeting came to a close at 9:10 pm.*

*Approved the Minutes ......D.G. Davies................... ....... Date ...24/6/15................................*